



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru

---

Y Cynllun Ymdopi â Thywydd Oer ar gyfer pobl  
sydd mewn perygl o fyw mewn cartref oer

# Cynnwys

---

<b>Diben yr cynllun hwn</b>	<b>1</b>
<b>Meini Prawf y Cynllun</b>	<b>2</b>
<b>Trechu tlodi tanwydd 2021-2035</b>	<b>3</b>
<b>Gweithredu cyfredol i helpu aelwydydd</b>	<b>4</b>
<b>Llywodraeth Cymru</b>	<b>4</b>
<b>Cynlluniau Llywodraeth y DU</b>	<b>4</b>
<b>Ofgem a'r cyflenwyr ynni</b>	<b>5</b>
<b>Partneriaid Trydydd Sector</b>	<b>6</b>
<b>Cynllun gweithredu</b>	<b>8</b>

---

# Diben yr cynllun hwn

Mae tywydd oer yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles pobl. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella bywydau pobl yng Nghymru ac i leihau'n sylweddol ganlyniadau negyddol byw mewn cartref oer. Diben y cynllun hwn yw nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddiogelu aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd ag incwm is yn ystod cyfnodau o dywydd oer.

Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) safonau ansawdd yn 2015, gyda'r nod o atal lefelau gormodol o farwolaethau ag afiechyd yn y gaeaf sy'n gysylltiedig â chartrefi oer. Mae'r ddogfen ganllaw gysylltiedig (**NG6**) yn rhoi cyfres gynhwysfawr o argymhellion ar sut y gall comisiynwyr iechyd, rheolwyr iechyd, darparwyr tai a chyflenwyr ynni, ac ymarferwyr a gwirfoddolwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol leihau'r risgiau i iechyd pobl sy'n agored i niwed yn ystod tywydd oer.<sup>1</sup>

Yn 2019 cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr adroddiad **Gwella iechyd a llesiant yn ystod y gaeaf a lleihau pwysau'r gaeaf. Dull ataliol**. Mae'r adroddiad yn annog llunwyr polisi, gwasanaethau iechyd a gofal, sefydliadau'r trydydd sector a'r cyhoedd i weithredu cyn dechrau'r gaeaf, gan gymryd camau i ddiogelu eu hunain a'u teuluoedd cyn i dymereddau isel a thywydd garw ddechrau.

Mae fframwaith gweithredu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn yr adroddiad yn nodi'r camau y gellir eu cymryd i wella iechyd yn ystod y gaeaf. Yn benodol gall Llywodraeth Cymru gefnogi'r fframwaith i atgyfnerthu camau ataliol drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi aelwydydd sy'n byw mewn tloidi tanwydd (yn enwedig y rhai ag incwm isel neu sy'n agored i effeithiau tywydd oer) drwy ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol.
- Cynyddu cynhesrwydd ac effeithlonrwydd ynni cartrefi (ochr yn ochr ag awyru cartrefi) ar gyfer aelwydydd sy'n agored i niwed, e.e. drwy gyngor, cymorth ariannol, gwelliannau i'r cartref ac adeiladu cartrefi newydd sy'n effeithlon o ran ynni.
- Ehangu'r cynllunio ar gyfer y gaeaf i gynnwys 'cynllunio ataliol parhaus' drwy gydol y flwyddyn, sy'n ymateb i anghenion tymhorol a digwyddiadau tywydd eithafol, gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb o ran iechyd.
- Sicrhau bod ymyriadau a mentrau'n cael eu comisiynau a'u gweithredu'n barhaus, er mwyn sicrhau gostyngiadau cynaliadwy yn nifer y bobl y mae angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal yn y gaeaf, ac yn ei dro leihau pwysau ar y gwasanaethau hyn.
- Darparu/comisiynu mentrau a phrosiectau yn y gymuned yn barhaus, fel gofal symudol, er mwyn lleihau'r pwysau ar ysbytai a gwasanaethau iechyd a gofal eraill.
- Mapio a nodi effeithiolrwydd yr ymyriadau sydd eisoes ar waith yng Nghymru, yn lleol ac yn genedlaethol, gan roi'r arferion gorau ar waith ledled Cymru.
- Mae cynllunio ataliol parhaus yn helpu i sicrhau cadernid o fewn yn y system iechyd ac yn ategu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cydweithredol a phartneriaethau newydd.

# Meini Prawf y Cynllun

Mae tri phrif amcan i'r cynllun hwn ar gyfer ymdopi â thywydd oer, ac maent yn cysylltu â nodau polisi un a dau yn y cynllun **Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035** – nodi, blaenoriaethu a diogelu aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd ag incwm isel sydd mewn perygl o ddioddef afiechyd y gellir ei osgoi, o ganlyniad i fyw mewn cartref oer.

Dyma dri phrif amcan y cynllun:

<b>Amcan 1:</b>	Darparu cyngor a chymorth ar gyfer aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd ag incwm isel, i'w helpu i baratoi'n well ar gyfer tywydd oer.
<b>Amcan 2:</b>	Helpu aelwydydd ag incwm isel i gynnal/gwella effeithlonrwydd eu cartrefi o ran ynni a gwres.
<b>Amcan 3:</b>	Gweithio gyda phartneriaid i gydgyssylltu gwasanaethau cyngor a chymorth i aelwydydd sy'n agored i newid ac aelwydydd ag incwm isel yn well, er mwyn lleihau'r risg o afiechyd y gellir ei osgoi o ganlyniad i fyw mewn cartref oer.

Drwy gyflawni'r amcanion hyn rydym yn ymateb yn benodol i'r ymrwymiadau a amlinellir o dan Gam Gweithredu 4 Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035. Yn y pen draw bydd hyn yn helpu pobl sy'n ei chael yn anodd talu am y tanwydd domestig sydd ei angen arnynt, ac sydd mewn perygl o afiechyd y gellir ei osgoi neu farwolaeth o ganlyniad i fyw mewn cartref oer.

# Trechu tlodi tanwydd 2021-2035

Gall tywydd oer peri risgiau difrifol i iechyd y cyhoedd, gan arwain at lefel ormodol o farwolaethau o'i chymharu â gweddill y flwyddyn. Mae hyn oherwydd y gall tywydd oer gyfrannu at hypothermia, cwympiadau ac anafiadau, trawiadau ar y galon, strôc, clefydau anadlol a'r fflw, problemau iechyd meddwl – megis iselder, a gwenwyno gan garbon monocsid o foeleri, offer coginio a systemau gwresogi sydd mewn cyflwr gwael neu sydd ag awyru gwael.

Yn ein cynllun i Drechu Tlodi Tanwydd 2021-2035, y diffiniad o aelwyd sy'n agored i niwed yw aelwyd sy'n cynnwys rhywun yn un neu fwy o'r categorïau canlynol:

- Rhywun 60 mlwydd oed neu'n hŷn.
- Plentyn neu blant dibynnol o dan 16 mlwydd oed.
- Person sengl o dan 25 mlwydd oed.
- Rhywun â salwch hirdymor neu anabledd.<sup>2</sup>

Mae'r camau gweithredu penodol a nodir yn y cynllun hwn yn cyd-fynd â phedwar nod polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Dyma nhw:

## Ffigur 1: Nodau Polisi Llywodraeth Cymru

<b>Nod 1: Nodi</b>	Mynd ati i nodi pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd, er mwyn sicrhau y bydd y cymorth a roddir gennym o fudd i bobl sy'n byw ar incwm is.
<b>Nod 2: Blaenoriaethu a diogelu</b>	Gwaethaf eu Byd Gyntaf Sicrhau bod pobl sydd â'r angen mwyaf yn cael y pecyn cymorth mwyaf priodol fel y gallant barhau i wresogi eu cartrefi bob amser.
<b>Nod 3: Datgarboneiddio</b>	Adeiledd yn Gyntaf Gwella effeithlonrwydd thermol ac ynni cartrefi incwm is yn y sector perchen feddianwyr a'r sector rhentu preifat, gan leihau biliau ynni a gollyngiadau carbon niweidiol.
<b>Nod 4: Dylanwadu</b>	Defnyddio ein dylanwad er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y DU, y Rheoleiddiwr Ynni a chwmnïau ynni yn rhoi ystyriaeth i bobl sy'n byw yng Nghymru ac yn diwallu eu hanghenion.

<sup>2</sup> Mae rhai cyflyrau cylchrediad y gwaed yn gofyn am dymheredd uwch na'r cyfartaledd er mwyn sicrhau lefel gyfforddus o gynhesrwydd, gan arwain at ddefnyddio rhagor o ynni a chostau gwresogi uwch. Mae unigolion sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn debygol o gael byw mewn cartref oer yn brofiad mwy gofidus, gan fod hyn yn arwain at gyfuniad o anghysur corfforol â phryder ynghylch talu am danwydd. Gall cartrefi oer gynyddu'r risg o bwysedd gwaed uchel, trawiadau ar y galon a niwmonia. Gallant hefyd arwain at ynysu cymdeithasol, colli cwsg, straen a salwch meddwl. Mae'r risg o ddatblygu cyflyrau o ganlyniad i fod yn oer yn uwch ar gyfer pobl ag anableddau penodol, yr henoed a phlant.

# Gweithredu cyfredol i helpu aelwydydd

## Llywodraeth Cymru

Mae Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn cynnig cyngor a chymorth i aelwydydd ag incwm isel i'w helpu i wella effeithlonrwydd eu cartrefi o ran gwres ac ynni. Ers ei sefydlu (ac fel yr oedd ar ddiwedd Mawrth 2021) mae mwy na £394 miliwn wedi cael ei fuddsoddi i wella effeithlonrwydd cartrefi yng Nghymru o ran ynni drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gyda dros 67,100 o aelwydydd yn elwa ar y rhaglen. Yn ogystal mae dros 160,000 o aelwydydd wedi derbyn cyngor diduedd, yn rhad ac am ddim, ar sut i wella effeithlonrwydd eu cartrefi o ran ynni a sut i leihau eu biliau tanwydd.

Mae Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru yn gwneud Taliadau Cymorth Brys ar ffurf grant nad oes angen ei ad-dalu, i helpu pobl mewn argyfwng ac sydd angen cymorth ariannol ar unwaith i dalu costau hanfodol. Ar hyn o bryd, gall y taliad helpu pobl sy'n profi caledi ariannol difrifol i dalu costau bwyd, nwy a thrydan, trwsio boeleri a phrynu olew a nwy hylif.

Ym mis Tachwedd 2018, cafodd y Gronfa Cymorth Dewisol ei hehangu ymhellach i helpu pobl nad ydynt yn gallu talu cost galw peiriannydd diogelwch nwy allan a chost mân atgyweiriadau. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru, National Energy Action ac NEC Software Solutions, gellir awdurdodi taliadau cymorth brys o hyd at £120, yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwysedd penodol, i dalu cost atgyweiriadau.

Cyflwynwyd cynllun peilot yn 2020/21 i roi taliadau cymorth brys o hyd at £175 i aelwydydd nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid, i'w helpu i brynu olew a nwy hylif mewn swmp. Ar 16 Tachwedd cyhoeddwyd Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf ar gyfer 2021-22. Mae hon yn gronfa o £38 miliwn i gefnogi aelwydydd gyda'u costau ynni. Mae'n darparu taliad untro o £100 i aelwydydd lle mae un aelod yn derbyn budd-daliadau lles penodol.

## Cynlluniau Llywodraeth y DU

Mae Taliadau Tywydd Oer ar gael i aelwydydd **sy'n derbyn budd-daliadau penodol neu Gymorth ar gyfer Llog ar Forgais**. Mae hyn yn rhoi cymorth i unigolion sy'n derbyn budd-daliadau sydd fwyaf agored niwed yn ystod tywydd oer: Er enghraifft:

- pobl hŷn sy'n derbyn Credyd Pensiwn;
- oedolion anabl, teuluoedd â phlentyn anabl neu deuluoedd â phlentyn o dan pum mlwydd oed, sy'n derbyn Credyd Cynhwysol neu un o'r budd-daliadau etifeddol canlynol:
  - Iwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
  - Iwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
  - cymhorthdal Incwm.

Mae'r taliad yn daladwy os cofnodir tymheredd cyfartalog o sero gradd Celsius neu'n is mewn ardal am saith diwrnod yn olynol, neu os rhagwelir hynny. Y swm sy'n daladwy yw £25 am bob cyfnod o saith diwrnod o dywydd oer iawn yn ystod cyfnod y cynllun, sef 1 Tachwedd i 31 Mawrth. Yn ôl amcangyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau<sup>3</sup> ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021, roedd 223,000 o bobl sy'n byw yng Nghymru yn gymwys i gael taliadau o dan y cynllun, ac o'r rhain roedd 87,000 yn derbyn Credyd Pensiwn.

Mae'r Taliad Tanwydd Gaeaf yn gynllun gan Lywodraeth y DU i helpu gyda chost ynni domestig yn ystod y gaeaf. Mae'n bosibl y bydd pobl a anwyd ar neu cyn 1954 (65 oed neu'n hŷn) yn gymwys i gael taliadau gwerth rhwng **£100 and £300**. Fel arfer, gwneir y taliad hwn yn awtomatig i bobl sydd â hawl i Bensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal arall (ac eithrio Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor, Budd-dal Plant neu Gredyd Cynhwysol).

## Ofgem a'r cyflenwyr ynni

Roedd adroddiad Ofgem ar **gefnogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed** yn cydnabod bod ynni'n wasanaeth hanfodol, sy'n effeithio ar gysur ac iechyd pobl. Fel rhan o amodau eu trwydded rhaid i gyflenwyr ynni greu a chynnal Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, a darparu rhai gwasanaethau cymorth yn rhad ac am ddim ar gyfer defnyddwyr cymwys. Mae'n ofynnol i gyflenwyr ddefnyddio eu Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth mewn modd rhagweithiol, gan nodi cwsmeriaid y mae'n bosibl y byddent yn elwa ar wasanaethau cymorth ychwanegol, a chynnig ychwanegu'r cwsmeriaid hyn at y Gofrestr.

Mae hefyd yn ofynnol i gyflenwyr gefnogi cwsmeriaid sydd mewn dyled neu sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau ynni. Mae Ofgem yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gynnig gwasanaethau penodol i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu, ac i gymryd pob cam rhesymol i nodi gallu'r cwsmer i dalu. Mae'r risg o ôl-ddyledion yn cynyddu yn ystod misoedd y gaeaf, a gall hyn arwain at bobl yn byw mewn cartref oer pan fydd y tymheredd yn gostwng, oherwydd bod pobl yn ofni mynd i ddyled na ellir ei rheoli.

Gall cyflenwyr ynni gynnig Gostyngiad Cartrefi Cynnes i aelwydydd cymwys. Mae hyn yn ostyngiad o £140 ar filiau trydan. Mae'r taliad yn ostyngiad untro sy'n berthnasol i filiau trydan rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Gellir rhoi disgownt i'r bil nwy yn lle hynny os yw'r cyflenwr yn darparu nwy a thrydan i'r cartref.

Nid yw tua 18% o gartrefi yng Nghymru wedi'u cysylltu â'r grid nwy<sup>4</sup>. Mae llawer o'r cartrefi hyn mewn ardaloedd gwledig, ac yn aml maent yn dibynnu ar olew, nwy hylif a glo i gadw'n gynnes. Nid yw'r amddiffyniadau a gynigir gan Ofgem i gartrefi ar y grid yn cynnwys cartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid. Tynnodd yr **Adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gweledig i dlodi tanwydd, yn ystod pumed tymor y Senedd** sylw at yr angen am gymorth wedi'i deilwra mewn cymunedau gwledig i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi tanwydd.

3 [gov.uk/government/statistics/cold-weather-payment-estimates-2020-to-2021](https://www.gov.uk/government/statistics/cold-weather-payment-estimates-2020-to-2021)

4 [gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/welsh-housing-conditions-survey-energy-efficiency-dwellings-april-2017-march-2018-795.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/welsh-housing-conditions-survey-energy-efficiency-dwellings-april-2017-march-2018-795.pdf)

## Partneriaid Trydydd Sector


Mae gan wahanol sefydliadau restrau gwahanol o unigolion sydd wedi cael eu categoreiddio fel rhai mae angen gwasanaethau blaenoriaeth arnynt neu sy'n agored i niwed. Mae prosiect Galluogi Rhannu Gwybodaeth Amlasiantaethol JIGSO yn cydgysylltu gwybodaeth rhwng ymatebwyr brys (ac eraill fel cwmnïau dŵr) er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r unigolion hynny mewn argyfwng. Nod prosiect JIGSO yw dod â'r holl wybodaeth hon at ei gilydd fel bod ymatebwyr brys yn gwybod pwy sydd angen cymorth. Cedwir y wybodaeth drwy gyfeirnod eiddo unigryw.

Mae'r gwasanaeth 'Ysbyty i Gartref Iachach (H2HH)', a sefydlwyd yn wreiddiol fel cynllun peilot ar gyfer gaeaf 2018-19, wedi cael ei ddarparu gan Gofal a Thrwsio Cymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ers mis Ionawr 2019. Mae'n wasanaeth i hwyluso'r broses o ryddhau o'r ysbyty gleifion hŷn sy'n agored i niwed, a all fod ar eu hennill o addasiadau yn y cartref ac atebion yn cael eu gweithredu'n gyflym, yn gyflymach ac mewn modd mwy diogel. Nod y gwasanaeth yw helpu i leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, ynghyd â nifer y bobl sy'n cael eu derbyn a'u haillderbyn i'r ysbyty, drwy neilltuo gweithwyr achos mewn ysbytai i fynd o amgylch y wardiau a nodi cleifion a fyddai ar eu hennill. Mae angen ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r cynllun hwn a'r potensial i estyn y cynllun drwy'r byrddau iechyd yn mabwysiadu'r gwasanaeth hwn yn lleol.

Mae Strategaeth Lles Ariannol y Gwasanaeth Arian a Phensiynau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn nodi sut y byddant yn cefnogi pobl i gael y mwyaf o'u harian a'u pensiynau. Un o bum nod y strategaeth yw lleihau nifer y bobl sy'n gorfod troi at gredyd yn rheolaidd i dalu biliau am wasanaethau hanfodol, gan gynnwys biliau ynni. Bydd y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cymru yn nodi'r gweithgareddau a fydd yn cyflawni yn erbyn y nod hwn. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu canllawiau i ddefnyddwyr ar sicrhau'r incwm mwyaf posibl, er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli unrhyw fudd-daliadau neu grantiau mewn perthynas ag insiwleiddio cartrefi, a sicrhau bod hawlio'r budd-daliadau cywir yn arwain at fynediad i grantiau'r Llywodraeth. Bydd y canllawiau hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod defnyddwyr ar y tariff cywir i gael y gwerth gorau gan eu cyflenwr ynni. Yn ogystal, mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi sut y bydd y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn gweithio gyda chyflenwyr gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys ynni, i wella mynediad i dariffau cymdeithasol a chofrestri gwasanaethau blaenoriaeth. Bydd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn rhannu gwybodaeth am raglenni inswleiddio a chymorth yng Nghymru yn eu canllawiau ar filiau am wasanaethau hanfodol ar eu gwefan. Maent yn sicrhau bod eu canllawiau ariannol ar gyfer sefydliadau trydydd parti yn cyfeirio pobl at y rhaglenni perthnasol.



**Ffigur 2: Cymorth presennol ar gyfer pobl yng Nghymru yn ystod tywydd oer**



# Cynllun gweithredu

## Amcan 1:

**Darparu cyngor a chymorth ar gyfer aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd ag incwm isel, i'w helpu i baratoi'n well ar gyfer tywydd oer.**

Cam gweithredu	Sut	Pwy	Pryd
Cyhoeddi gwybodaeth am yr angen i baratoi ar gyfer cyfnodau o dywydd oer a'r cymorth sydd ar gael i aelwydydd.	Paratoi a chyhoeddi deunyddiau marchnata, wedi'u cynllunio i annog aelwydydd i baratoi'n well ar gyfer y gaeaf, yn gynharach yn y flwyddyn. Rhoi cyngor ac arweiniad ar y camau mae angen eu cymryd i gadw'n gynnes yn ystod misoedd y gaeaf.	<b>Arweinydd:</b> Cynllun Nyth Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru. <b>Cymorth gan:</b> Y Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd. Iechyd Cyhoeddus Cymru.	Defnyddio cyngor ac arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2021.  Erbyn mis Mai 2022 wedyn yn barhaus.
Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth effeithiol mewn perthynas â chartrefi cynnes.	Darparu cyngor a chymorth mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni domestig o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol, drwy gynllun Nyth a'r Cynllun Peilot Cyngor yn y Cartref.  Ceisio ehangu'r cymorth a'r cyngor mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni domestig a ddarperir o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf.	<b>Arweinydd:</b> Cynllun Nyth Llywodraeth Cymru.	Y Cynllun peilot tan fis Mawrth 2022.  Cynllun Nyth tan fis Fawrth 2023.  Y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd o fis Ebrill 2023.
Gweithio gyda'r trydydd sector ac asiantaethau cysylltiedig i helpu pobl i sicrhau'r incwm mwyaf posibl a hyrwyddo'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hyn.  Nodi nifer o bobl nad ydynt yn hawlio a pham, er mwyn gwella'r ymgyrch.	Sicrhau bod aelwydydd yn hawlio budd-daliadau a hawliau.  Adeiladu ar lwyddiant yr ymgyrch genedlaethol i annog pobl i hawlio budd-daliadau	<b>Arweinydd:</b> Cronfa Cyngori Sengl Llywodraeth Cymru. <b>Cymorth gan:</b> Y Trydydd Sector. Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cyflenwyr Ynni.	Yn gyfredol ac yn barhaus.

Cam gweithredu	Sut	Pwy	Pryd
Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol/ymarferwyr sy'n helpu pobl â'u harian fel rhan o'u rôl ehangach yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i aelwydydd.	Hwyluso digwyddiad rhithwir sy'n canolbwyntio ar gymorth a chanllawiau ar gostau ynni a thariffau a materion sy'n wynebu aelwydydd sy'n agored i niwed yn ystod tywydd oer.	<b>Arweinydd:</b> Rhwydwaith Money Guiders Cymru y Gwasanaeth Arian a Phensiynau. <b>Cymorth gan:</b> Y Trydydd Sector. Hyrwyddwr Ynni.	Hydref 2021.
Rhoi cymorth i aelwydydd nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid ac aelwydydd gwledig i brynu tanwydd domestig.	Hyrwyddo a rhoi taliadau cymorth brys i aelwydydd incwm isel i'w helpu gyda: <ul style="list-style-type: none"> <li>• chostau prynu olew a nwy hylif mewn swmp</li> <li>• taliadau credyd ychwanegol ar gyfer mesurydd rhagdalau.</li> </ul>	<b>Arweinydd:</b> Llywodraeth Cymru/ y Gronfa Cymorth Dewisol. <b>Cymorth gan:</b> Y cwmnïau olew a nwy hylif.	Hydref i Fawrth bob blwyddyn.  Hydref 2021 ymlaen.

## Amcan 2:

### Helpu aelwydydd ag incwm isel i gynnal/gwella effeithlonrwydd eu cartrefi o ran ynni a gwres.

Cam gweithredu	Sut	Pwy	Pryd
Gwella mynediad at fesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd ar gyfer pobl sydd mewn perygl o afiechyd y gellir ei osgoi, ond heb dderbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.	Parhau â'r cynllun peilot cyflyrau iechyd a'i hintegreiddio i'r Rhaglen Cartrefi Clyd, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus.	<b>Arweinydd:</b> Llywodraeth Cymru.	Y cynllun peilot yn parhau. Mawrth 2023.
Cydgysylltu camau gweithredu i sicrhau mewnfuddsoddi ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni domestig o'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni.	Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar gynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni 4 a chefnogi'r gwaith o'i weithredu.  Sefydlu mecanweithiau i gydlynu buddsoddiadau o dan y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni.	<b>Arweinydd:</b> Llywodraeth Cymru. Partneriaid Trydydd Sector. Llywodraeth Leol. <b>Cymorth gan:</b> Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Leol. Ofgem/Cyflenwyr Ynni.	Medi 2021.  Ebrill 2022.

Cam gweithredu	Sut	Pwy	Pryd
Comisiynu catalog o gynlluniau lleol sy'n targedu unigolion ar incwm isel sydd â phroblemau iechyd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni.	Nodi'r cynlluniau perthnasol y gall partneriaid sy'n gwneud atgyfeiriadau eu defnyddio.	<b>Arweinydd:</b> Llywodraeth Cymru. <b>Cymorth gan:</b> Y Trydydd Sector. Awdurdodau Lleol. Cwmnïau Ynni.	Mawrth 2022
Rhoi cymorth i aelwydydd incwm isel i wneud mân atgyweiriadau i gynnal effeithlonrwydd eu cartrefi o ran gwres.	Taliadau Cymorth Brys drwy Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru. Cynnwys y gwaith galluogi sydd ei angen i wella effeithlonrwydd cartrefi o ran ynni yn y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd.	<b>Arweinydd:</b> Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru. <b>Cymorth gan:</b> Llywodraeth Cymru/ y Rhaglen Cartrefi Clyd.	Hydref i Fawrth yn flynyddol.  Mawrth 2023.
Annog landlordiaid yn y sector tai cymdeithasol a rhentu preifat i annog tenantiaid i roi gwybod am broblemau cynnal a chadw.	Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, landlordiaid cymdeithasol a landlordiaid preifat flaenoriaethu gwaith atgyweirio adeiladau sy'n effeithio ar effeithlonrwydd o ran gwres.	<b>Arweinydd:</b> Rhentu Doeth Cymru. Awdurdodau Lleol. Landlordiaid Preifat.	Hydref 2021.

**Amcan 3:**

**Gweithio gyda phartneriaid i gydgysylltu gwasanaethau cyngor a chymorth i aelwydydd sy'n agored i newid ac aelwydydd ag incwm isel yn well, er mwyn lleihau'r risg o afiechyd y gellir ei osgoi o ganlyniad i fyw mewn cartref oer.**

Cam gweithredu	Sut	Pwy	Pryd
Cyfeirio aelwydydd sydd ag ôl-ddyledion biliau ynni at gynlluniau sy'n cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref i leihau cost yr ynni sydd ei angen i gynnal tymheredd diogel.	Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at gyflenwyr ynni. Bydd gwasanaethau i gwsmeriaid y cwmnïau ynni yn cyfeirio cwsmeriaid at gynlluniau effeithlonrwydd ynni.	<b>Arweinydd:</b> Y cyflenwyr ynni.	Hydref 2021.
Cydgysylltu camau gweithredu rhwng y sector cyhoeddus/ y trydydd sector a chyflenwyr ynni i helpu aelwydydd incwm isel i ymdopi â thywydd oer.	Ailsefydlu is-grŵp y Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd i weithredu'r camau gweithredu yn y cynllun hwn.	<b>Arweinydd:</b> Llywodraeth Cymru. <b>Cymorth gan:</b> Llywodraeth leol. Byrddau Iechyd. Y Trydydd Sector. Cyflenwyr.	Medi 2021 – yn flynyddol wedi hynny.

# Llyfryddiaeth

1. Y Ganolfan Ynni Cynaliadwy (2016). *Understanding the Characteristics of Low Income Households Most at Risk from Living in Cold Homes*  
[gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/160711-understanding-characteristics-low-income-housholds-en.pdf](http://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/160711-understanding-characteristics-low-income-housholds-en.pdf) (06/05/2021)
2. Trysorlys Ei Mawrhydi (2020). *Financial Inclusion Annual Monitoring Report 2020*. McKay S, Rowlingson, K. [www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/935985/Financial\\_Inclusion\\_Report\\_2020.pdf](http://www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/935985/Financial_Inclusion_Report_2020.pdf) (30/04/2021)
3. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2015). *Canllaw 6: Excess winter deaths and illness and the health risks associated with cold home*  
[www.nice.org.uk/guidance/ng6](http://www.nice.org.uk/guidance/ng6) (06/05/2021)
4. Ofgem (2018). *Vulnerable Consumers in the Energy Market: 2018*.  
[www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2018/11/vulnerability\\_report\\_2018.pdf](http://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2018/11/vulnerability_report_2018.pdf) (06/05/2021)
5. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019). *Gwella iechyd a llesiant yn ystod y gaeaf a lleihau pwysau'r gaeaf. Dull ataliol: Caerdydd, Cymru*.  
[www.icc.gig.cymru/newyddion1/iechyd-dros-y-gaeaf-sut-y-gallwn-ni-i-gyd-wneud-gwahaniaeth/report-cym/](http://www.icc.gig.cymru/newyddion1/iechyd-dros-y-gaeaf-sut-y-gallwn-ni-i-gyd-wneud-gwahaniaeth/report-cym/) (06/05/2021)
6. Llywodraeth Cymru (2019). *Bwletin Ystadegau. Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017 – 2018. Effeithlonrwydd Ynni Anheddau*  
[gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/welsh-housing-conditions-survey-energy-efficiency-dwellings-april-2017-march-2018-795.pdf](http://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/welsh-housing-conditions-survey-energy-efficiency-dwellings-april-2017-march-2018-795.pdf) (06.05.2021)